Ymgysylltiad a chyfranogiad disgyblion mewn Cynlluniau Teithio Ysgol

Gwybodaeth ar gyfer rhieni ac ysgolion

TAFLEN WYBODAETH FS20

Cyflwyniad

Canlyniad (neu nod) hanfodol unrhyw gynllun teithio ysgol (CTY) yw cael plant a phobl ifanc i gerdded, beicio neu fynd ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r ysgol yn hytrach na mynd yn y car. Dylai felly fod yn fater o synnwyr cyffredin i geisio sicrhau ymglymiad disgyblion drwy gydol datblygiad a gweithrediad cynllun.

Fodd bynnag, mae llawer o dystiolaeth i awgrymu bod sawl CTY yn cael eu datblygu gyda fawr ddim ymgysylltiad na chyfranogiad o du'r disgyblion. Mae hyn yn eironig o gofio bod disgyblion ysgol yn aml eisiau teithio mewn modd amgylcheddol gynaliadwy, fel y dangosir ar y graff isod. Gall rhesymau amrywio gydag oedran, adlewyrchu pryder i helpu i ddiogelu'r amgylchedd, a neu ddymuniad i deithio yn annibynnol ar eu rhieni.

Mewn ymchwil a gynhaliwyd yn yr Alban dangosodd blant a phobl ifanc ddealltwriaeth dda o sut y mae eu hymddygiad teithio yn effeithio ar yr amgylchedd, eu hiechyd a'i hannibyniaeth. Roedd manteision iechyd yn uchel ymhlith y ffactorau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt pan fydd pobl ifanc yn penderfynu sut i deithio.[1]

Cyfranogiad Pobl Ifanc

Yn ffodus, mae pwysigrwydd ymgysylltu disgyblion mewn CTY yn cael ei gydnabod mewn sawl maes, yn cynnwys cyfarwyddyd a ddaw gan y Llywodraeth.

Yn Lloegr, un gofyniad ar gynlluniau teithio ysgol sy'n cael eu cyflwyno am grant cyfalaf Menter Teithio Ysgol y Llywodraeth yw y dylid ymgynghori â disgyblion ynglŷn â sut y byddent yn dymuno teithio i'r ysgol/o'r ysgol. Yn yr Alban mae'r cyfarwyddyd ar gyfer Strategaethau Trafnidiaeth Lleol hefyd yn dweud y dylid ymgynghori â phlant a phobl ifanc.

Teithio i'r Ysgol
Arolwg Young TransNet o 175,808 disgybl yn 2005



Department for Transport

Helpu Cymru i leihau ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce its Carbon Footprint

Caiff y prosiect **Llwybrau Diogel i'r Ysgol** ei gydlynu gan Sustrans ac mae'n rhoi cefnogaeth i awdurdodau lleol, ysgolion a rhieni. Sustrans yw elusen trafnidiaeth gynaliadwy flaenaf y DU ac mae'n gweithio ar brosiectau ymarferol i annog rhagor o bobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus er budd iechyd a'r amgylchedd. Elusen gofrestredig rhif 326550

Canolfan Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, 2 Cathedral Square, College Green, Bristol, BS1 5DD

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Ymgysylltiad a chyfranogiad disgyblion mewn

Ym 1991 arwyddodd y DU Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 12 yn datgan:

Bydd Partïon y Gwladwriaethau yn sicrhau'r plentyn sy'n alluog i ffurfio ei farn ei hun, yr hawl i fynegi'r farn honno yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio ar y plentyn, gan roi dyledus bwys i farn y plentyn yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn.

Yn fwy diweddar mae Comisiynwyr Plant wedi eu penodi i bob un o'r gwledydd yn y DU. Eu cylch gwaith yw canolbwyntio ar faterion hawliau plant ac amddiffyn plant gan sicrhau bod ganddynt lais yn eu cymunedau ac mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

"Mae rhoi cyfle i ddisgyblion gyfrannu i lunio eu cynlluniau teithio ysgol yn hanfodol .... oherwydd hwy fydd â'r mewnwelediad gorau ynglŷn â pha gynlluniau teithio fydd yn gweithio'n fwyaf realistig iddynt hwy a'u rhieni neu warcheidwaid."

Nigel Williams, Comisiynydd Pobl Ifanc Gogledd Iwerddon.

Nid dim ond arolwg teithio yw cyfranogi

Mae cyfranogi'n golygu ymglymiad uniongyrchol plant mewn gwneud penderfyniadau am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, boed hynny'n unigol neu ar y cyd.[2] Mae cyfranogi'n bwysig yn gyffredinol mewn prosesau democrataidd ac ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol. Mae angen i blant a phobl ifanc deimlo eu bod yn ddinasyddion gweithredol gyda llais. Mae gwerth cynhenid mewn cael gofyn am eu barn, mater o falchder a pharch, er bod llawer yn ei gwneud hi'n glir y dylai eu barn gael effaith - canlyniad diriaethol.

"Os ydym o ddifrif yn golygu gwella amodau byw plant mae'n rhaid i ni, fel rhag-amod lleiaf, sefydlu systemau adrodd lle y cânt eu clywed eu hunain yn ogystal ag adrodd amdanynt gan eraill."

Qvortrup ,1990[3]

Cynnal Cynlluniau Teithio Ysgol

Mae CTY yn ddogfen fyw sy'n tyfu a datblygu dros nifer o flynyddoedd. Mae ei lwyddiant yn y pen draw yn ddibynnol ar ysgol yn cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am ei gynnal.

Lle bydd gwaith teithio ysgol yn dod yn rhan o drefn ddyddiol ac wedi ei wreiddio yn agweddau craidd ysgol, bydd tebygolrwydd cynnal y cynllun teithio yn hirdymor yn cynyddu. Gall hyn yn aml gael ei gyflawni pan fydd:

- cynllun teithio ysgol yn rhan o'r cwricwlwm, fel y dangosir yng nghyfarwyddyd cwricwlwm Sustrans
- gwaith teithio ysgol wedi ei gysylltu gyda mentrau eraill megis dyfarniadau Ysgolion Iach neu Eco-ysgolion
- disgyblion a/neu gyngor ysgol yn meddwl am y CTY ac yn cynnig syniadau ar gyfer ei ddatblygu ymhellach o leiaf yn flynyddol, er enghraifft, fel rhan o'r broses monitro ac adolygu
- rhywun o fewn cymuned yr ysgol yn cymryd y rôl o hyrwyddo'r CTY a mentrau cysylltiedig.

Mae ymgysylltu'n effeithiol â disgyblion yn natblygiad a chyflwyniad CTY yn mynd gryn ffordd at sicrhau na chaiff y cynllun teithio ei adael ar y silff.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan blant a phobl ifanc lawer i'w gynnig o ran eu cyfranogiad a'u syniadau ar gyfer newid. Mae'n dangos nad ydynt yn ymarfer hawliau yn anghyfrifol ond yn hytrach yn deall y gall gwneud

pethau'n gyfrifol agor cyfleoedd i wneud pethau eraill.[4] Gallant fod yn arsyllwyr craff o'r strydoedd lleol, bod â syniadau ar gyfer gwella'r amgylchedd lleol a bod â'r gallu i ddeall ei bod hi'n anodd symud rhai cyfyngiadau a rhwystrau.[5]

Ymagweddau at farn plant a chyfranogiad mewn gwaith teithio ysgol

O gofio bod pob ysgol yn unigryw, bydd y modd yr edrychir ar CTY yn amrywio'n fawr o un ysgol i'r llall. Mae enghreifftiau o wahanol ymagweddau y gallai ysgolion eu cymryd i sicrhau cyfranogiad gan bobl ifanc yn cynnwys:

- cynghorau ysgol â mewnbwn gwneud penderfyniadau i ddatblygiad a gwaith cynnal a chadw CTY, yn cynnwys gosod targedau a chymryd cyfrifoldeb am rai o'r amcanion
- cynnal arolygon teithio gyda chymuned gyfan yr ysgol, dadansoddiad disgyblion o'r canlyniadau a thrafodaeth ar y rhain yn ystod amser dosbarth fel rhan o brosiect ysgol gyfan
- gwaith cwricwlwm yn cynnwys cyflwyniadau i wneuthurwyr penderfyniadau allweddol megis cynghorwyr, swyddogion awdurdod lleol a chymdeithasau rheini ac athrawon. Gweler yr amrediad o gysylltiadau i'r cwricwlwm ar ein gwefan
- gwaith grŵp ffocws yn dilyn ymlaen o arolygon teithio cychwynnol
- addysg cyfoedion; gweithio gydag ysgolion sy'n bwydo ac ysgolion partner
- defnyddio Theatr mewn Addysg fel modd o ddechrau rhagor o waith cwricwlwm ar faterion teithio ysgol a'r CTY.

Astudiaethau achos

1. Ysgol Gynradd Coppice, Swydd Gaerwrangon

Cynorthwyodd bwyllgor eco'r ysgol, yn cynnwys 16 o ddisgyblion etholedig o Gyfnod Allweddol 2, i ddatblygu CTY yr ysgol. Cyfarfu'r cyngor gyda'u hymgynghorydd teithio ysgol lleol i drafod materion teithio ysgol ac archwilio rhesymau pam fod plant sy'n byw o fewn pellter cerdded i'r ysgol yn teithio mewn car.

Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem sefydlodd y disgyblion 'Wythnos dod â Ffrind i'r Ysgol', gan adeiladu ar lwyddiant a phoblogrwydd Wythnos Cerdded i'r Ysgol. Penderfynodd y pwyllgor eco y dylai disgyblion ddylunio posteri i hyrwyddo'r wythnos a chynigwyd cymhelliant er mwyn gwobrwyo cyfranogiad. Mae'r fenter hon wedi ei chynnwys fel tasg ddatblygu yn y CTY ar gyfer ei gweithredu'n flynyddol.

2. Ysgol Gynradd Stockton-on-the-Forest, Caerefrog

Yn ychwanegol at y cyngor ysgol mae gan yr ysgol 'Gyngor Cynllun Teithio' (CCT) sy'n cynnwys disgyblion a chynrychiolydd o blith y staff. Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod bob pythefnos am ddwy flynedd.

Y CCT sy'n llunio cynllun gweithredu CTY yr ysgol mewn ymgynghoriad gyda'r athro sydd ar eu pwyllgor ac yna'n mynd ati i gyflawni'r targedau. Maent yn cydlynu ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, yn ymchwilio problemau diogelwch ar y ffyrdd parhaus, lobio'r cyngor am newidiadau, trefnu gwasanaethau tymhorol ac ysgrifennu llythyrau i rieni. Roedd Cynllun Gweithredu y Cyngor ar gyfer 2004/2005 yn cynnwys cyfarfod â'r swyddog beicio i ail-leoli'r siediau beic, anfon arolwg allan i ganfod y diddordeb mewn bws cerdded a chynllunio llwybr beicio newydd drwy'r safle. Ni fydd y

pennaeth byth yn anwybyddu'r plant - caiff hyd yn oed y penderfyniadau ar adnoddau addysgu sy'n ymwneud â theithio eu gwneud gan y CCT.

3. Ysgol Uwchradd Douglas Ewart, Dumfries a Galloway

Yn yr ysgol wledig hon bydd llawer o ddisgyblion yn gwneud y siwrnai ddyddiol ar fws, gyda rhai yn teithio hyd at 18 milltir. Teimlai'r disgyblion bod yr ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y bws yn annerbyniol. Gan weithio gyda chydlynydd teithio yr ysgol, sefydlwyd grŵp defnyddwyr bws disgyblion gyda chynrychiolaeth o bob grŵp blwyddyn. Mae'r grŵp wedi datblygu ac mae ganddo bolisïau'n ymwneud â'r siwrnai ysgol. Maent wedi delio â fandaliaeth drwy lunio cynllun eistedd a chytuno ar bolisi cerddoriaeth.

4. Hertfordshire STARS!

Mae Cyngor Sir Swydd Hertford yn cynnal cynllun peilot School Travel Action Rangers (STARS!) fel ffordd o gynnwys plant yn narpariaeth a datblygiad y CTY. Rôl STAR fydd hyrwyddo teithio diogel a chynaliadwy drwy wasanaethau a hysbysfyrddau. Yn gyfnewid am hynny caiff yr ysgolion fydd yn cyfranogi eu cefnogi gan ymweliadau ac adnoddau gan ymgynghorydd teithio ysgol lleol. Os bydd yn llwyddiannus caiff y cynllun ei gynnig i holl ysgolion y sir sydd â chynllun teithio ysgol.

5. Ysgol Gyfun Rhymni, Caerffili

Bu pum disgybl ac athro yn beicio yn yr Iseldiroedd i weld sut y gallai cynlluniau llwybrau cerdded a beicio gael eu gwella. Buont yn ymweld â'r Comisiwn Ewropeaidd, ac wedi dychwelyd cyflwynasant eu syniadau i gynghorwyr lleol a chynllunwyr teithio. O ganlyniad i hyn llwyddwyd i berswadio'r awdurdod lleol i fuddsoddi mewn llwybrau cerdded a beicio newydd i'w hysgol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a phapur briffio llawn am Gyfranogi mewn Cynlluniau Teithio Ysgol ar www.saferoutestoschools.org.uk

Cyfeiriadau

1. Children's Attitudes To Sustainable Transport, Gweithrediaeth yr Alban, 2003

2. Hill, M., Davis, J., Prout, A. a Tisdall, K. (2004) Moving the participation agenda forward, Children and Society, 18, tud 77-96

3. Qvortrup, J. (1990) 'A voice for children in statistical and social accounting: A plea for children's rights to be heard', yn James, A. and Prout, A. (gol) Constructing and Deconstructing Childhood: Contemporary issues in the sociological study of childhood, tud. 78-98, New York: Falmer Press.

4. Such, E. a Walker, R. (2004) Being responsible and responsible beings: Children's understanding of responsibility, Children and Society, 18, tud 231-242

5. Davis, A. a Jones, L. (1997) Whose neighbourhood? Whose quality of life? Developing a new agenda for children's health in urban settings, Health Education Journal, 56, tud 350-363.

Dymuna Sustrans ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu ffotograffau, yn cynnwys ei staff ei hun a Chyngor Sir Swydd Hertford, Julia Bayne, Jason Patient, Lorcan Doherty a Lucy Keeler.

Gwybodaeth bellach

Ewch i'r wefan Teithio Ysgol **www.saferoutestoschools.org.uk** i gael y canlynol:

- newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am Lwybrau Diogel i'r Ysgol

- gwybodaeth benodol am bob un o ranbarthau'r DU

- adnoddau y gellir eu lawrlwytho, yn cynnwys taflenni gwybodaeth eraill

- astudiaethau achos, deunyddiau cwricwlwm a chylchlythyron

Ar gyfer ymholiadau Teithio Ysgol ffoniwch 0117 915 0100 neu e-bostiwch schools@sustrans.org.uk

Gellir llungopïo'r daflen wybodaeth hon er mwyn ei defnyddio mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Ar gyfer atgynhyrchu mewn cyhoeddiadau eraill, cysylltwch â'r Tîm Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn Sustrans i gael caniatâd.